OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1787 (Cy. 250)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Temple Bar, Sir Benfro i'r Ffin Rhwng Sir Benfro a Cheredigion) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Hydref 2015* |
| *Yn dod i rym* | *19 Hydref 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Hydref 2015. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Temple Bar, Sir Benfro i'r Ffin Rhwng Sir Benfro a Cheredigion) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 19 Hydref 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffordd yr A487 yn Sir Benfro a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Hydref 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A 10 MYA DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD

1. Y darn hwnnw o’r gefnffordd yn Temple Bar sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd Dosbarth II (y B4582) tua’r dwyrain hyd at bwynt 1.7 cilometr i’r dwyrain o’r gyffordd honno.

2. Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 2 cilometr i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd Dosbarth II (y B4582) tua’r dwyrain hyd at bwynt 6.1 cilometr i’r dwyrain o’r gyffordd honno.

3. Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 6.6 cilometr i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd Dosbarth II (y B4582) tua’r gogledd hyd at bwynt 13 cilometr i’r gogledd-ddwyrain o’r gyffordd honno.

### TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD

1. Y darn hwnnw o’r gefnffordd yn Temple Bar sy’n ymestyn o bwynt 1.7 cilometr i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd Dosbarth II (y B4582) tua’r dwyrain hyd at bwynt 2 cilometr i’r dwyrain o’r gyffordd honno.

2. Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 6.1 cilometr i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd Dosbarth II (y B4582) tua’r gogledd-ddwyrain hyd at bwynt 6.6 cilometr i’r dwyrain o’r gyffordd honno.